# System Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Awdurdod Lleol Gwynedd ag Ynys Môn:

*dyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes ADY*

**Amserlen: 12 wythnos – yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

## Ymholiad ADY Cam 1:

Yr Awdurdod Lleol yn derbyn cyfeiriad bod posibilrwydd bod gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Awdurdod Lleol yn **hysbysu'r plentyn / rhiant** ac yn rhannu manylion y **Cydlynydd** sydd wedi'i ddynodi i hwyluso'r camau dilynol.

**Plentyn / rhiant i lenwi'r ffurflen** casglu gwybodaeth a'i ddychwelyd yn brydlon.

## Ymholiad ADY Cam 2:

Cydlynydd yn trefnu **cyfarfod cychwynnol** gyda'r plentyn a rhiant i gyflwyno'r system ADY a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth am anghenion eu plentyn. Gall yr Awdurdod Lleol **gyflwyno cais statudol** am wybodaeth a chyngor gan bersonau perthnasol. Rhaid iddynt gydymffurfio o fewn 6 wythnos.

Bydd posib cyflwyno'r wybodaeth ar y **system CDU ar-lein** drwy wahoddiad drwy e-bost neu drwy ddulliau eraill.

## Ymholiad ADY Cam 3:

Cydlynydd i gyflwyno'r wybodaeth a thystiolaeth i aelodau'r Panel Cymedroli ADY. Aelodau yn ystyried y wybodaeth a thystiolaeth ac yn gwneud penderfyniad os oes gan y plentyn ADY ai pheidio. DIM ADY

ADY Penderfynu pa wasanaethau sydd yn debygol o ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol

## Penderfyniad dim ADY

**Hysbysu'r plentyn / rhiant** am y penderfyniad a rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. Bydd yr hysbysiad yn nodi unrhyw gamau bydd yr Awdurdod Lleol yn eu cymryd i sicrhau fod anghenion y plentyn (nad ydynt yn ADY) yn cael ei ddiwallu. Gall plentyn / rhiant drafod y penderfyniad ymhellach gyda'r Awdurdod Lleol. Rhoddir manylion ynghylch hyn yn yr Hysbysiad, gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio.

## Penderfyniad ADY

## Llunio Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

**Cam 1:** **Hysbysu'r plentyn / rhiant** am y penderfyniad bod gan y plentyn ADY a darparu **pamffled gwybodaeth** am beth yw Cynllun Datblygu Unigol a dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Cydlynydd i baratoi a threfnu cyfarfod i lunio CDU. **Hysbysu'r plentyn / rhiant a phawb** sy'n ymwneud, o ddyddiad y cyfarfod i lunio CDU a'r broses o rannu gwybodaeth o flaen llaw. Bydd cymorth ar gael i gefnogi'r plentyn / rhieni i gymryd rhan mor llawn a phosib yn y broses.

## Llunio CDU Cam 2:

Cydlynydd yn arwain y cyfarfod i lunio CDU er mwyn cyfrannu gwybodaeth a llunio **deilliannau a thargedau cytunedig** sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Llunio CDU Cam 3:

**Hysbysu'r** plentyn / rhiant bod cyfle i rannu sylwadau ar gopi **drafft o'r CDU. Rhoddir amser penodol** i ymateb a rhannu unrhyw sylwadau. Gallwch drafod unrhyw fater gyda'r Cydlynydd.

## Llunio CDU Cam 4:

Cyflwyno'r CDU i sylw aelodau **Panel Cymedroli**

## Cyflwyno CDU Cam 5:

**Hysbysu'r plentyn /rhiant** fod yr Awdurdod Lleol yn **rhoi copi o'r CDU**. Hysbysir rhiant o'r **dyddiad adolygu arfaethedig**. Gallwch drafod unrhyw fater ymhellach **gyda'r Cydlynydd. Rhoddir manylion pellach ynghylch hyn yn yr Hysbysiad, gan gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio.**

Gwasanaeth ADYaCh, Adran Addysg, Caernarfon Gwynedd LL55 1SH • 01286 679007 • GweinyddolADYaCh.llyw.cymru • www.adyach.cymru